# Deall y defnyddiwr a chynyddu gwerthiant

Mae'r ffeithlen yma yn crynhoi canfyddiadau adroddiad Taylor Nelson Sofres: '*Organic Food: Understanding the Consumer and Increasing Sales*'

**Ledled y DU mae'r farchnad organig wedi tyfu'n gyflym yn ystod y ddegawd olaf; mae gwerthiant bwyd organig wedi cynyddu ddengwaith i £1.12 biliwn yn 2003/04. I gynnal llwyddiant y twf hwn, mae'n bwysig fod y rhai sy'n cynhyrchu a marchnata'r cynnyrch organig yn gallu cyfleu manteision bwyd a ffermio organig i'r defnyddiwr.**

## Y Farchnad Adwerthu

- Yn ystod 2003/04, bu twf o 10.2 y cant yng ngwerthiant cynnyrch organig gan gyrraedd bron £2 miliwn yr wythnos.
- Yr archfarchnadoedd sy'n dominyddu'r farchnad adwerthu organig o hyd gyda chyfran o 80 y cant o'r gwerthiant.
- Tyfodd gwerthiant cynnyrch organig yn gynt trwy fentrau marchnata uniongyrchol megis cynlluniau blwch, siopau fferm a marchnadoedd ffermwyr na thrwy unrhyw fusnes adwerthu arall ar 16 y cant yn ystod 2003/04, gan gyfrif am 10 y cant o'r farchnad adwerthu.
- Bu cynnydd o 10 y cant yng ngwerthiant cynnyrch organig trwy adwerthwyr annibynnol yn ystod 2003/04 i gyfrif am 10 y cant o'r farchnad adwerthu.

## Argoelion y Farchnad

- Yn y flwyddyn hyd at mis Ionawr 2003 bu cynnydd o fwy na 200 y cant yng ngwerthiant cig oen a chynnydd o fwy na 50 y cant yng ngwerthiant cig eidion. Fodd bynnag, methodd porc, cyw iâr a bacwn, â chystadlu â'r duedd hon yn y farchnad a bu gostyngiad o 0.9 y cant yn y gwerthiant.
- Bu cynnydd o 13.4 y cant yng ngwerthiant cynnyrch llaeth.
- Bu cynnydd o 9.2 y cant yng ngwerthiant bwydydd organig
- Bu gostyngiad o 0.5 y cant yng ngwerthiant sudd ffrwythau a diodydd meddal.

## Gwariant y cartref

Mae'r twf parhaus yn y farchnad organig wedi ei symbylu gan ddefnyddwyr presennol yn gwario mwy ac yn prynu mwy o gynnyrch organig yn amlach yn hytrach nag ymdrechion i ddenu cwsmeriaid newydd.

Ffrwythau a llysiau yw'r prif fynedfa i'r farchnad organig, ac yn dilyn ar eu sodlau: cynnyrch llaeth ac wyau, bwydydd wedi'u pecynnu, yna cig a diodydd meddal.

- Blas a diogelwch y bwyd yw'r ffactorau pwysicaf wrth berswadio pobl i roi cynnig ar fwyd organig am y tro cyntaf ac wrth annog defnyddwyr i wario mwy ar gynhyrchion organig. Fodd bynnag, dim ond wrth gael eu perswadio hefyd o'r manteision iechyd, a'r lles i'r amgylchedd a'r anifeiliaid o fwyta'n organig y daw siopwyr yn brynwyr organig o ddifrif.
- Mae hanner y rhai nad sy'n prynu bwyd organig yn ymwrthod rhag gwneud hynny oherwydd y pris, mae 15 y cant o'r rhai nad sy'n prynu yn credu nad yw bwyd organig yn blasu'n well, 14 y cant heb feddu digon o wybodaeth i gyfiawnhau y gost ychwanegol a 9 y cant yn ymwrthod rhag prynu cynnyrch organig gan nad ydynt yn credu fod iddo unrhyw fanteision iechyd.



*Cyhoeddir gan Ganolfan Organig Cymru, Sefydliad y Gwyddorau Gwledig, Prigfysgol Cymru Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3AL. Ffôn. 01970 622248*
*Ni all Canolfan Organig Cymru a'i phartneriaid dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am ganlyniadau unrhyw gamau a gymerir ar sail cynnwys ei ffeithlenni na chyhoeddiadau eraill.*

## Argymhellion marchnata

- **Ewch dros yr hanes organig** – Os yw bwyd organig i werthu am bris uwch, yna rhaid rhoi cyfleu llwyr werth y pris hwnnw o ran iechyd, yr amgylchedd, lles anifeiliaid, blas a ffactorau eraill. Pwysleisiwch darddiad y cynnyrch a manteision bwyd organig trwy annog ymweliadau fferm, ac wrth ychwanegu negeseuon syml ar becynnau bwyd; os nad oes gofod ar gyfer hyn, sefydlwch wefan neu crëwch ddeunydd hysbysebu lle gall defnyddwyr ddarllen am y manteision mewn manylder. Er enghraifft, mae fferm y Graig yn rhoi côd ar eu pecynnau organig gan alluogi'r defnyddiwr i ymweld â gwefan a gweld drosto'i hun y fferm y tarddodd y cynnyrch ohoni.
- **Marchnata a darparu yn ôl y blas -** Dengys ymchwil fod llawer o ddefnyddwyr yn disgwyl i fwydydd organig flasu'n well na chynnyrch anorganig. Felly mae'n hanfodol sicrhau bod y cynnyrch yn diwallu disgwyliadau'r defnyddwyr o ran ansawdd. Dylid hybu blasau llawn y cynnyrch organig a gellir trefnu sesiynau blasu er mwyn hysbysebu. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth farchnata cynnyrch sy'n annhebygol o ddenu'r prynwr sy'n ofalus ynghylch iechyd, e.e. cwrw, gwin a gwirodydd organig.
- **Cadwch y cyfan yn syml** – Peidiwch ag anghofio dweud wrth ddefnyddwyr sut i adnabod cynnyrch organig a sut mae 'organig' yn wahanol i gynnyrch 'crwydro'n rhydd' a 'naturiol'.
- **Rhowch bwyslais ar iechyd** – Ceisiwch gyfleu manteision iechyd y cynnyrch organig ble bynnag y bo modd. Ystyriwch yn ofalus wrth enwi'r cynnyrch a ph'un ai yw'n helpu i greu delwedd iach ai peidio, e.e. '*The Better Food Company'*
- **Ffurfiwch gysylltiadau** – Cysylltwch ag elusennau priodol a mudiadau eraill i amlygu manteision bwyd a ffermio organig; gwnewch yn fawr o'r drefn brynu nodweddiadol wrth hyrwyddo wyau a chynnyrch llaeth i gwsmeriaid ffrwythau a llysiau, a chig i gwsmeriaid cynnyrch llaeth.
- **Gwnewch yn fawr o Gymreictod eich cynnyrch o fewn Cymru ond pwysleisiwch ei Brydeindod mewn mannau eraill yn y DU.** Awgryma ymchwil y dylid dynodi cynhyrchion sy'n cael eu marchnata y tu allan i Gymru yn bennaf oll fel rhai Prydeinig. Fodd bynnag, yng nghyswllt cynnyrch sy'n cael ei farchnata o fewn Cymru, mae labelu a nodi'r hynodrwydd Cymreig yn bwysig gan fod 80% o ddefnyddwyr Cymru yn fwy tebygol o brynu bwyd organig os yw'n tarddu o Gymru, ac mae 72% o ddefnyddwyr Cymru yn barod i dalu mwy am fwyd lleol. Dylai cynhyrchwyr a phroseswyr ystyried labelu gwahaniaethol, gan efallai ddefnyddio labeli glynu ychwanegol neu becynnau cwbl gwahanol i bwysleisio Prydeindod y cynnyrch pan ŷnt yn marchnata y tu allan i Gymru. Gall y rhai sydd yn dal trwydded *Soil Association Certification Ltd* ddefnyddio ystod o labeli rhad ac am ddim, yn seiliedig ar faneri, i hyrwyddo tarddiad Prydeinig/cenedlaethol/rhanbarthol eu cynnyrch.

Gellir darllen yr adroddiad llawn: '***Organic Food: Understanding the consumer and increasing sales***' ar http://www.organic.aber.ac.uk/library/TNS2004eng.pdf. Ceir copïau caled o Ganolfan Organig Cymru (gweler y manylion cyswllt isod)

## Cymorth marchnata i fusnesau organig Cymreig

| | |
|---|---|
| **The Welsh Development Agency**<br>**Bwrdd Datblygu Cymru**<br>Plas Glyndwr, Kingsway, Caerdydd, CF10 3AH<br>Ffoniwch Huw Thomas – 02920 828946<br>E-bost – huw.e.thomas@wda.co.uk<br>Gwefan – www. Wda.co.uk | Yn darparu cyngor a chymorth i gynhyrchwyr a phroseswyr organig ynghylch grantiau prosesu a marchnata, ffynonellau cyllid, cymorth busnes, cyngor am labelu a materion datblygu masnach. |
| **Canolfan Organig Cymru**<br>Sefydliad y Gwyddorau Gwledig, Prifysgol Cymru, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3AL<br>Ffôn - 01970 622248<br>E-bost – organic@aber.ac.uk<br>Gwefan – www.organic.aber.ac.uk | Yn darparu gwybodaeth a chyngor am sefyllfa'r farchnad, pwrcasu cyhoeddus ac addysg gyhoeddus. Ceir ystod o adnoddau ar-lein ac ar gopi caled gan gynnwys ffeithlenni marchnata, adroddiadau manwl, a bwletin misol ar farchnata organig. |
| **Soil Association**<br>Bristol House, 40-56 Victoria Street, Bristol, BS1 6BY<br>Ffôn – 0117 3145000<br>E-bost – info@soilassociation.org<br>Gwefan – www.soilassociation.org | Yn codi ymwybyddiaeth y cyhoedd am ffermio organig ac yn hybu manteision bwyd organig. Mae'r adnoddau yn cynnwys arweiniad cynhwysfawr ar ble-i-brynu cynnyrch organig - 'Y Cyfeiriadur Organig', a'r 'Adroddiad Bwyd a Ffermio Organig' blynyddol. |